Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 03/01/2018 i'w hateb ar 10/01/2018

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth

Vikki Howells *Cwm Cynon*

1 OAQ51518

Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus i drigolion Cwm Cynon yn 2018?

Rhun ap Iorwerth *Ynys Môn*

2 OAQ51522 Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am fudd economaidd datbygiadau seilwaith ar Ynys Môn?

Janet Finch-Saunders *Aberconwy*

3 OAQ51504

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am effaith stormydd y gaeaf ar y rhwydweithiau ffyrdd?

Russell George *Sir Drefaldwyn*

4 OAQ51513

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i dyfu economi canolbarth Cymru?

Angela Burns *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

5 OAQ51502

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o nifer y busnesau yr effeithir arnynt yn andwyol gan force majeure?

David Melding *Canol De Cymru*

6 OAQ51500

Pa asesiad y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i wneud o sefyllfa economaidd bresennol y sector adeiladu?

Mick Antoniw *Pontypridd*

7 OAQ51516

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am fanteision y cyflog byw i economi Cymru?

Mohammad Asghar *Dwyrain De Cymru*

8 OAQ51507

Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella ffyrdd yn ne-ddwyrain Cymru yn 2018?

Jenny Rathbone *Canol Caerdydd*

9 OAQ51503

Yn dilyn ymgynghoriad am wella gwasanaethau bws y llynedd, beth yw strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer sicrhau rhwydwaith bysiau cynaliadwy sy'n gwasanaethu Cymru gyfan?

Dawn Bowden *Merthyr Tudful a Rhymni*

10 OAQ51517 **TYNNWYD YN ÔL**

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddefnyddio'r rhaglen mannau cyfyng ar yr A470 ym Merthyr Tudful?

Sian Gwenllian *Arfon*

11 OAQ51520 Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad ynghylch gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer economi gogledd Cymru?

Andrew R.T. Davies *Canol De Cymru*

12 OAQ51495

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am sut y bydd polisïau economaidd Llywodraeth Cymru yn gwella'r cyflogau a gaiff eu cymryd adref yng Nghymru?

Suzy Davies *Gorllewin De Cymru*

13 OAQ51499

Pwy sy'n cynghori Ysgrifennydd y Cabinet ar benderfyniadau i gymeradwyo ceisiadau a wneir i'r gyllideb buddsoddi cyfryngau ar hyn o bryd?

Nick Ramsay *Mynwy*

14 OAQ51497

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi mentrau yn y sector preifat a gynlluniwyd i hyrwyddo Mynwy fel porth i dde Cymru?

John Griffiths *Dwyrain Casnewydd*

15 OAQ51498

Sut y mae blaenoriaethu cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus gan Lywodraeth Cymru dros geir modur preifat yn effeithio ar ddyrannu adnoddau o fewn y portffolio economi a thrafnidiaeth?

Cwnsler Cyffredinol

David Rees *Aberafan*

1 OAQ51510

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda chymheiriaid yn y DU mewn perthynas â chadw siarter yr UE ar hawliau sylfaenol yn rhan o gyfraith y DU yn dilyn Brexit?

Simon Thomas *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

2 OAQ51493 Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o effaith Deddfau Uno 1535-42 ar gyfansoddiad Cymru?

Joyce Watson *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

3 OAQ51523

Yn sgil Adolygiad Lammy, a wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am amrywiaeth yn y proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru?

Simon Thomas *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

4 OAQ51494 Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cynnal ynglŷn a gallu Llywodraeth Cymru i ddefnyddio ei grymoedd newydd o dan Ddeddf Cymru 2017?